Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Birribi

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2024

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Birribi

Mae Birribi yn ysgol annibynnol sy'n cynnig darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl, cyflwr y sbectrwm awtistig ac anawsterau dysgu cysylltiedig. Agorodd yr ysgol ym mis Ebrill 2016 fel rhan o sefydliad ehangach sydd hefyd yn darparu gofal preswyl a fferm ofal a ddefnyddir gan ddisgyblion yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn gweithredu o ddwy ystafell ddosbarth sy'n gysylltiedig â chartrefi plant y cwmni yn Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin.

Nod y cwmni yw darparu ymagwedd therapiwtig integredig sy'n hyrwyddo lles disgyblion ac yn eu helpu i wella'u cyfleoedd mewn bywyd a dod yn aelodau hyderus ac annibynnol o'r gymuned. Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer hyd at 10 o ddisgyblion rhwng 7 ac 18 oed sy'n byw yng nghartrefi plant y cwmni, ac nad ydynt yn gallu cael mynediad at addysg brif ffrwd.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig neu gynllun addysg, iechyd a gofal (CAIG). Mae 6 disgybl ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd. Mae pob un o'r disgyblion yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol ac yn cael eu lleoli gan awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr. Mae ychydig iawn o ddisgyblion o gefndiroedd Cymraeg.

Adeg yr arolygiad craidd ym mis Mai 2022, canfu AEF nad oedd yr ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003.

I gydymffurfio'n llawn â'r gofynion hyn, roedd yn ofynnol i'r ysgol fynd i'r afael â'r materion a nodwyd isod ar gyfer pob safon:

**Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- Gael polisi ar y cwricwlwm wedi'i amlinellu'n ysgrifenedig a'i gefnogi gan gynlluniau priodol a chynlluniau gwaith, a dylai ei roi ar waith yn effeithiol [1(2)]
- Sicrhau bod y cwricwlwm yn rhoi cyfle i bob disgybl ddysgu a gwneud cynnydd [1(2)(i)]
- Darparu gwersi wedi'u cynllunio'n dda, dulliau addysgu effeithiol a gweithgareddau addas [1(3)(c)]
- Darparu fframwaith i asesu gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn drylwyr, a defnyddio gwybodaeth o'r cyfryw asesu i gynllunio addysgu fel bod disgyblion yn gallu gwneud cynnydd [1(3)(g)]

Ar ôl yr ymweliad hwn, gofynnwyd i'r ysgol greu cynllun gweithredu ôl-arolygiad. Ymwelodd tîm o AEF â'r ysgol ym mis Mai a mis Rhagfyr 2023 i drafod cynnydd yr ysgol yn erbyn ei chynllun gweithredu. Yn dilyn hynny, ymwelodd AEF â'r ysgol ym mis Mehefin 2024 i werthuso cydymffurfiad yr ysgol â'r safonau nad oedd yn cydymffurfio â nhw yn flaenorol. Adeg yr ymweliad, bu AEF yn gwerthuso cydymffurfiad â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2024.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

O dan arweinyddiaeth newydd yr ysgol, mae'r cwricwlwm wedi cael ei adolygu a'i gryfhau i sicrhau ei fod yn darparu arlwy eang a chytbwys. Mae'r cwricwlwm yn thematig ac yn adlewyrchu anghenion unigol y disgyblion yn dda. Mae staff yn meithrin perthnasoedd gweithio cadarnhaol â disgyblion. O ganlyniad, a thros gyfnod, mae ymddygiad ac ymgysylltiad disgyblion yn eu dysgu yn gwella o'u mannau cychwyn cychwynnol.

Mae'r ysgol wedi datblygu cwricwlwm menter cryf. Mae disgyblion yn creu a gwerthu eitemau bob wythnos. Mae datblygu cyfleoedd dysgu yn gysylltiedig â gwaith yn cynyddu dealltwriaeth disgyblion o'r byd ehangach ac yn eu paratoi'n dda ar gyfer eu camau nesaf.

Mae disgyblion wedi datblygu ardal gardd y tu allan sy'n darparu gofod dysgu ychwanegol gwerthfawr, yn ogystal â thyfu cynnyrch fel rhan o'u cynllun menter. Mae disgyblion yn falch o'u gwaith ac yn awyddus i ddangos yr ardd i ymwelwyr, ac yn dangos y gwahanol blanhigion, llysiau a pherlysiau y maent wedi'u plannu.

Mae'r ysgol wedi datblygu ei rhaglen wobrwyo bwrpasol ei hun fel rhan o'i harlwy dysgu yn yr awyr agored a fferm ofal. Mae hyn yn galluogi disgyblion i ymgysylltu ag ystod eang o weithgareddau sy'n datblygu eu medrau gwneud penderfyniadau, eu medrau gweithio mewn tîm a datblygiad eu gwydnwch a'u hunanreoli emosiynol yn dda. Mae proses drylwyr i fonitro'r cynnydd a wna disgyblion tra byddant yn gweithio ar y fferm ar waith. Hefyd, mae'r dysgu yn yr awyr agored a'r fferm ofal yn cefnogi datblygiad medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn dda.

Mae'r ysgol yn dechrau sefydlu perthnasoedd gweithio da â darparwyr eraill i gefnogi arlwy'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion ac ymestyn eu profiadau datblygu medrau cymdeithasol.

Mae asesiadau ar waith i ddarparu gwaelodlin lefel gallu pob disgybl. Fel rhan o'r cylch asesu, cesglir data bob chwe mis. Mae staff yn dechrau defnyddio'r data hwn i gynllunio ar gyfer anghenion disgyblion unigol yn briodol.

Mae staff wedi datblygu olrheiniwr cynnydd disgyblion, sy'n darparu data gwerthfawr i nodi cynnydd disgyblion a bylchau mewn dysgu i fynd i'r afael â nhw. Mae staff yn cydnabod bod angen mireinio'r broses hon ymhellach.

### Meysydd ar gyfer gweithredu

Mae cylch o arsylwadau gwersi dan arweiniad y pennaeth ar waith. Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn canolbwyntio'n ddigon craff ar y cynnydd a wna disgyblion yn eu dysgu. Hefyd, megis dechrau cael eu rhoi ar waith y mae arsylwadau cymheiriaid ac arsylwi arfer dda mewn ysgolion eraill.

Megis dechrau rhoi'r olrheiniwr cynnydd a sefydlwyd yn ddiweddar ar waith y mae'r ysgol. Mae asesu medrau fel rhan o'r broses hon wrthi'n cael ei datblygu ar hyn o bryd.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, a diwylliannol disgyblion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu'r safon hon

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu'r safon hon

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu'r safon hon

**Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu'r safon hon

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu'r safon hon

**Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu'r safon hon

## Argymhelliad ynghylch cofrestriad parhaus

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2024.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol 2024. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/08/2024